Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

PENODI CADEIRYDD I BWYLLGOR GWASANAETHAU IECHYD ARBENIGOL CYMRU

NHS WALES GIG CYMRU

Gwneud cais

Diolch ichi am fynegi diddordeb yn rôl y Cadeirydd i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Bydd gofyn i'r Cadeirydd newydd ddarparu arweinyddiaeth gref i'r Pwyllgor a chynnal gwerthoedd Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-1b39be1f1be8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu gweld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi gyflwyno'r ffurflen gais a dwy ddogfen ategol. Dogfen yn ateb y cwestiynau isod yw'r gyntaf, sef 'datganiad personol'. Ni ddylai'r ddogfen hon fod yn fwy na dwy dudalen A4. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn. Curriculum vitae (CV) llawn, cyfredol yw'r ail ddogfen y bydd rhaid ichi ei chyflwyno. Dylech lanlwytho'r ddwy ddogfen i'r adran "Rhesymau dros ymgeisio" o'r ffurflen gais ar-lein. Dylech ddefnyddio ffont maint 12pt o leiaf ar y dogfennau ategol.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir yn y cwestiynau isod. Chi fydd yn penderfynu sut y byddwch am gyflwyno'r wybodaeth. Er hynny, fe ddylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl wrth gyflawni canlyniad penodol.

Nodwch hefyd y bydd eich tystiolaeth hefyd yn cael ei hasesu i benderfynu a oes gennych y lefel angenrheidiol o brofiad i weithredu'n effeithiol ar lefel y Bwrdd.

Byddai hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Cwestiynau i'w hateb fel rhan o'ch cais yn eich datganiad personol

- Rhowch enghraifft o sefyllfa pan rydych wedi darparu arweiniad strategol mewn modd blaengar i ddatblygu sefydliad preifat, cyhoeddus neu drydydd sector llwyddiannus a nodwch y canlyniadau.

- Eglurwch pa ddulliau yr ydych wedi'u defnyddio yn y gorffennol wrth arwain Bwrdd i sicrhau perchnogaeth o amcanion corfforaethol, ac atebolrwydd drostynt.

- Rhowch enghraifft neu enghreifftiau penodol o sefyllfa pan fu'n rhaid ichi ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau cadarn.

- Disgrifiwch achlysur lle rydych wedi gweithio gyda rhywun ar fater pwysig lle'r oedd gennych safbwyntiau gwahanol, gan barhau i gynnal perthynas adeiladol.

- Rhowch grynodeb o sut yr ydych yn bodloni'r priodoleddau a'r sgiliau personol a nodir ar dudalen XX*

Curriculum Vitae (CV)

Byddwch cystal â sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	17/04/2020
Cwblhau llunio rhestr fer:	27/04/2020
Cynnal cyfweliadau:	Mis Mai 2020
Dyddiad dechrau:	04/07/2020**

*** Trefnir cyfle i gysgodi cyn 4 Gorffennaf 2020, drwy gytundeb ar y cyd.*

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Gwarantu Cyfweliad i bobl anabl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. O dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, bydd ymgeisydd anabl yn cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad os bydd yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd.

Enwau Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r: Tîm Penodiadau Cyhoeddus PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu trafodaeth anffurfiol am rôl y Cadeirydd, cysylltwch â:

Yr Athro Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol.
Ffôn: 03000 257143
E-bost: chris.jones@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, efallai yr hoffech ymweld â'u gwefan: http://www.whssc.wales.nhs.uk/hafan

Y Broses ddethol

Er nad yw penodiadau i'r Pwyllgor o fewn cylch gorchwyl y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, gwneir y penodiadau hyn drwy ddilyn proses sy'n defnyddio Cod Ymarfer y Comisiynydd ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus fel yr arfer gorau. Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfle cyfartal a'i ymgorffori ym mhob agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys wrth benodi i gyrff cyhoeddus. Croesewir ac anogir ceisiadau gan bob grŵp, ac rydym yn sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd cymwys am swydd gyhoeddus yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oed, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth. Cedwir at yr egwyddor o gystadleuaeth deg ac agored, a phenodir ar sail teilyngdod.

Y cefndir a'r cyd-destun

Cafodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ('y Pwyllgor') sy'n cael ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ei sefydlu ar 1 Ebrill 2010. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gynllunio gwasanaethau arbenigol ac arbenigol iawn ar y cyd ar ran y saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.

Dyma'r Byrddau Iechyd Lleol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Swyddogaeth pob Bwrdd Iechyd Lleol yw cynllunio, cyllido, datblygu a sicrhau'r gwasanaethau a ddarperir ym maes gofal sylfaenol, cymunedol, a gofal mewn ysbytai, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol, ar gyfer pobl yn eu hardaloedd lleol. Mae cyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru'n gorchymyn i saith Bwrdd Iechyd Lleol Cymru weithio ar y cyd i weithredu'r swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio a sicrhau gwasanaethau arbenigol ac arbenigol iawn.

Y diben a'r swyddogaethau dirprwyedig

Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu er mwyn gweithredu'r swyddogaethau hynny sy'n berthnasol i gynllunio a sicrhau gwasanaethau arbenigol ac arbenigol iawn penodol i Gymru gyfan, ar ran pob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.

Mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am y bobl hynny sy'n byw yn eu hardaloedd. Er bod y Pwyllgor yn gweithredu ar ran y saith Bwrdd Iechyd Lleol wrth ymgymryd â'i swyddogaethau, mae'r ddyletswydd sydd gan bob un Bwrdd Iechyd Lleol yn parhau. Yn y bôn, y Byrddau Iechyd Lleol sy'n atebol i ddinasyddion Cymru a rhanddeiliaid eraill am ddarparu gwasanaethau arbenigol ac arbenigol iawn i drigolion yn eu hardaloedd.

Rôl y Pwyllgor yw:

- Pennu cynllun strategol hirdymor er mwyn datblygu gwasanaethau arbenigol ac arbenigol iawn yng Nghymru, ar y cyd â Gweinidogion Cymru;

- Cymeradwyo a llofnodi'r cynlluniau tymor canolig integredig tair blynedd a ddatblygir gan y Byrddau Iechyd;

- Tynnu sylw at driniaethau a gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli a rhai sydd newydd ymddangos, eu gwerthuso, a rhoi cyngor ar ddynodi gwasanaethau o'r fath;

- Datblygu polisïau cenedlaethol er mwyn sicrhau mynediad teg a chyfiawn i wasanaethau arbenigol ac arbenigol iawn diogel, cynaliadwy ac o ansawdd

uchel ar hyd a lled Cymru – p'un a fydd y polisïau'n cael eu cynllunio, eu cyllido a'u sicrhau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol;

- Cytuno bob blwyddyn ar y gwasanaethau hynny a ddylai gael eu cynllunio ar lefel genedlaethol a'r rhai hynny a ddylai gael eu cynllunio'n lleol;

- Cynhyrchu cynllun blynyddol y cytunir arno gan y Pwyllgor yn dilyn cyhoeddi Cynlluniau Corfforaethol ac Ansawdd / Cyflawni Blynyddol y Byrddau Iechyd Lleol;

- Cytuno ar lefel briodol o gyllid ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol ac arbenigol iawn yn genedlaethol, a phennu'r cyfraniad gan bob un Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer y gwasanaethau hynny (a fydd yn cynnwys costau rhedeg y Pwyllgor a Thîm Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru), yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau penodol a bennir gan Weinidogion Cymru;

- Datblygu ffyrdd o reoli'r risgiau yn ystod y flwyddyn sy'n gysylltiedig â phortffolio'r gwasanaethau y cytunir arno, a'r pwysau newydd a allai godi yn sgil hwnnw;

- Sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ac arbenigol iawn yn cael eu cynllunio ar lefel genedlaethol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr y tu allan i Gymru; a

- Datblygu ffyrdd i fonitro, gwerthuso a chyhoeddi canlyniadau gwasanaethau gofal iechyd arbenigol ac arbenigol iawn a mynd ati i gymryd camau priodol.

Rhaid i'r Pwyllgor sicrhau bod ei holl weithgareddau yn unol â'r swyddogaethau hyn neu unrhyw swyddogaethau eraill a allai gael eu rhoi iddo. Bydd pob Bwrdd Iechyd Lleol yn rhwym wrth benderfyniadau'r Pwyllgor wrth gyflawni ei rolau. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a nodir yn Rheolau Sefydlog y Pwyllgor mewn perthynas â gwneud penderfyniadau.

I gyflawni ei swyddogaethau, bydd y Pwyllgor yn arwain ac yn archwilio gweithgareddau, swyddogaethau, a phenderfyniadau'r Tîm Rheoli sy'n cael eu gwneud dan gyfarwyddyd y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn gweithio ar y cyd â'i holl bartneriaid a rhanddeiliaid er lles gorau'r boblogaeth ar hyd a lled Cymru.

Disgrifiad o'r rôl

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod y Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol:

- Cadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor;
- Cydymffurfio â'r safonau llywodraethu da sydd wedi'u gosod ar gyfer y GIG yng Nghymru, gan sicrhau bod holl fusnes y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn unol â'i Reolau Sefydlog; a
- Datblygu cysylltiadau cadarnhaol a phroffesiynol ymhlith aelodaeth y Pwyllgor a rhwng aelodau'r Pwyllgor a staff pob Bwrdd Iechyd Lleol.

Bydd y Cadeirydd yn cydweithio'n agos â Chadeirydd pob Bwrdd Iechyd Lleol. Gyda

chefnogaeth Ysgrifennydd y Pwyllgor, bydd hefyd yn sicrhau bod materion allweddol a phriodol yn cael eu trafod gan y Pwyllgor mewn modd amserol, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth a chyngor angenrheidiol ar gael i'r aelodau, er mwyn darparu gwybodaeth a fydd yn mynd yn sail i drafodaethau a phenderfyniadau terfynol.

Mae'r Cadeirydd yn atebol yn uniongyrchol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer perfformiad pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol wrth gyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor ar eu rhan, a thrwy Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, ar gyfer cynnal busnes yn unol â'r fframwaith llywodraethu a gweithredu penodol.

Manyleb y person

Bydd y Cadeirydd yn arddangos y rhinweddau canlynol:

Gwybodaeth a phrofiad

- Profiad o arwain a datblygu sefydliad preifat, cyhoeddus neu drydydd sector ar lefel uwch-reolwr, a'r gallu i edrych i'r dyfodol a chynnig arweiniad strategol;
- Profiad o sefydlu a monitro systemau llywodraethu cadarn mewn sefydliad cymhleth;
- Profiad o annog eraill i ddatrys anghydfod yn effeithiol a hybu cysylltiadau proffesiynol positif;
- Hanes llwyddiannus o gadeirio'n effeithiol mewn sefyllfaoedd pan fo materion hynod o gymhleth yn cael eu trafod a phan fo tensiynau'n codi yn ymwneud â gwrthdaro buddiannau posibl;
- Hanes llwyddiannus o feithrin perthynas effeithiol gydag ystod o randdeiliaid;
- Gwybodaeth am y gwasanaeth iechyd, a'r gwasanaethau arbenigol a ddarperir, a dealltwriaeth ohonynt; a/neu gefndir clinigol.

*Priodoleddau a sgiliau personol

- Sgiliau rhyngbersonol cadarn a digon o ddylanwad personol a hygrededd i fod yn eiriolwr a llysgennad effeithiol â sgiliau dylanwadu a thrafod cadarn;
- Ymrwymiad a phenderfyniad, ynghyd â'r gallu i feithrin gweledigaeth a datblygu strategaethau wedi'u diffinio, er mwyn cyflawni nodau hirdymor a thymor byr;
- Sgiliau cyfathrebu gwych, ynghyd â'r gallu i fod yn glir a chryno i hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth, gan barchu safbwyntiau pobl eraill;
- Y gallu i brosesu llawer iawn o wybodaeth a gwerthuso tystiolaeth gymhleth o fewn amserlen dynn;

- Y gallu i grynhoi a nodi diben cyffredin er mwyn hwyluso penderfyniadau cytûn ac effeithlon;

- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol;

- Y gallu i fod yn annibynnol ac yn gadarn.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos hefyd:

- Ddealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt, a herio arferion gwahaniaethol lle bo hynny'n briodol;

- Dealltwriaeth glir o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' Nolan, ynghyd ag ymrwymiad iddynt

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol. Fodd bynnag, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a rhoi arweiniad ar gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

Bydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad ymhelaethu ar sut y maent yn bodloni'r meini prawf uchod gan ddefnyddio enghreifftiau a thystiolaeth.

Telerau penodi

Caiff penodiadau eu gwneud gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Hyd y penodiad

Bydd y Cadeirydd yn cael ei benodi am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd, ac fe all y Cadeirydd sefyll am hyd at uchafswm o wyth (8) mlynedd. Gallai'r telerau penodi newid os bydd unrhyw newidiadau strwythurol yn cael eu gwneud i systemau'r GIG yn y dyfodol sy'n effeithio ar y Pwyllgor.

Pwy sy'n gymwys

Ni ellir eich penodi:

a. os ydych wedi'ch cael yn euog yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw am unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i ohirio neu beidio) am gyfnod o dri mis neu fwy, heb yr opsiwn o gael dirwy;
b. os bydd gorchymyn cyfyngu methdaliad, neu orchymyn interim, yn eich erbyn, neu os ydych wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'ch credydwyr;
c. os ydych wedi cael eich diswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig o fewn corff y gwasanaeth iechyd;
d. os daethpwyd â'ch tymor fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd i ben, ac eithrio am resymau sy'n ymwneud â dileu swyddi, ymddiswyddo gwirfoddol, ad-drefnu yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd, neu fod cyfnod y penodiad wedi dod i ben;

e. os ydych wedi cael eich cyflogi am dâl yn ystod y flwyddyn flaenorol gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre neu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. At ddibenion y paragraff hwn, nid yw unigolyn i'w drin yn un sydd wedi'i gyflogi am dâl, am ei fod wedi dal swydd cadeirydd, is-gadeirydd neu aelod nad yw'n swyddog o Fwrdd Iechyd Lleol yn unig.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro Buddiannau ar y ffurflen gais.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru pe deuai hynny'n hysbys ar ôl eu penodi.

Ymrwymiad amser

Mae swydd y Cadeirydd yn gofyn am ymrwymiad amser o 52 diwrnod y flwyddyn.

Tâl cydnabyddiaeth

Mae gan y Cadeirydd hawl i dderbyn tâl trethadwy o £322 y dydd.

Treuliau

Bydd hawl gennych gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi yn sgil busnes y Pwyllgor.

Gellid talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill, os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Pwyllgor.

Cymorth i aelodau anabl

Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud, er mwyn galluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Dyddiad dechrau

4/07/2020